

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys gan Arolygiaeth Gofal
Iechyd Cymru 2015-16

Awst 2016

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Diben.....	2
2.	Trosolwg	2
3.	Themâu Allweddol.....	3
4.	Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig	4
5.	Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith	6
6.	Llywodraethu ac Atebolrwydd	7
7.	Ymgysylltu.....	8
8.	Gwaith Arolygu.....	9

1. Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Ein diben yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi cael ei gynhyrchu gan AGIC fel crynodeb o weithgarwch AGIC rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'r gweithgarwch hwn yw:

- Bod profiad dinasyddion o ofal iechyd yn cael ei wella
- Bod dinasyddion yn gallu mynd at wybodaeth eglur a phrydlon ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Bod dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydgyssylltiedig ac yn ychwanegu gwerth.

2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC 15 arolygiad o leoliadau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, a oedd yn cynnwys:

- Pedwar arolygiad o bractisau cyffredinol
- Deg arolygiad o bractisau deintyddol
- Un arolygiad dilynol o bractis deintyddol.

Yn y sector arolygu yn ardal Powys, mae AGIC wedi cynnal un arolygiad:

- Un arolygiad o glinig terfynu beichiogrwydd.

3. Themâu Allweddol

Yn ystod 2015-16, cynhaliodd AGIC amrywiaeth o waith ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg trwy'r gwaith eleni. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

Arolygiadau o Bractisau Deintyddol y GIG:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal deintyddol roeddent yn ei dderbyn.
- Canfuom fod angen i rai practisau wella'r prosesau a oedd ganddynt ar waith ar gyfer sterileiddio a storio offer a ddefnyddir mewn gwaith deintyddol, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o groes-heintio.
- Canfuom fod angen i lawer o bractisau wella'r ffordd roeddent yn rheoli'r defnydd o gyfarpar radiograffig (pelydr-X) mewn modd diogel ac effeithiol a oedd yn bodloni gofynion y rheoliadau perthnasol.
- Canfuom fod angen i rai practisau wella eu systemau ar gyfer sicrhau bod eu haelodau staff yn derbyn diweddariadau perthnasol a chyfleoedd dysgu sy'n eu helpu i wneud eu gwaith yn effeithiol.
- Canfuom fod recriwtio deintyddion cymwys yn gallu bod yn anodd mewn rhai ardaloedd.

Arolygiadau o Bractisau Cyffredinol:

- Gwnaethom weithio gyda dau aelod o'r cyngor iechyd cymuned lleol wrth arolygu practisau cyffredinol. Ar y cyfan, dywedodd cleifion wrth y cyngor iechyd cymuned eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir gan eu meddyg teulu a thîm y practis.
- Yn aml, nododd cleifion eu bod yn ei chael hi'n anodd cael apwyntiad gyda'r meddyg o'u dewis mor gyflym ag y dymunent.
- Roedd y timau practis cyffredinol y gwnaethom ymweld â nhw yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i'w cleifion, ac roeddent yn gwneud hyn drwy gynnig mynediad at amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol i gleifion, yn hytrach nag at feddygon teulu yn unig.

4. Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig

Ni wnaethom gynnal unrhyw adolygiadau arbennig nag ymchwiliadau i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ystod blwyddyn arolygu 2015-16.

Gwerthusiad o adolygiadau dynladdiad a gynhaliwyd gan AGIC ers 2007

Yn ystod 2015-16, cyhoeddodd AGIC werthusiad o'r adolygiadau dynladdiad¹ a gynhaliwyd ganddi ers 2007. Pwrpas y gwerthusiad oedd asesu effaith adroddiadau AGIC, a'r argymhellion a gyhoeddwyd ers 2007, ar wasanaethau sy'n cael eu darparu i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.

Dyma'r themâu cyffredinol yr ymdriniwyd â nhw yn adroddiad gwerthuso AGIC:

- Cynllunio gofal, asesu, ac ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr
- Rheoli risg
- Diagnosis
- Cynllunio rhyddhau ac ôl-ofal
- Gwasanaethau integredig a chydgyssylltiedig
- Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

Gwelsom fod effaith ein hadroddiadau wedi bod yn amrywiol. Roedd rhai sefydliadau nad oeddent yn destun adolygiad uniongyrchol wedi sefydlu eu proses fewnol eu hunain i ystyried yr argymhellion o bob adroddiad. Fodd bynnag, nid oedd gan rai sefydliadau broses neu ddull ffurfiol ar waith i sicrhau dysgu ehangach yn sgil ein hadroddiadau. Roedd rhwystrau i weithredu'r argymhellion yn codi pan oedd angen camau gweithredu ar draws nifer o sefydliadau neu asiantaethau, gan gynnwys cyrff nad ydynt yn gyrrff iechyd. Fodd bynnag, dywedodd yr holl randdeiliaid a fu'n destun adolygiad fod ein hadolygiadau'n werthfawr iawn ac y dylid parhau â nhw.

Mae AGIC wedi newid y ffordd y mae'n cynnal yr adolygiadau hyn, yn benodol er mwyn hybu dysgu ymysg rhanddeiliaid sy'n rhan uniongyrchol o bob adolygiad. Mae AGIC yn gofyn i'r holl fyrddau iechyd ystyried sut maent yn

¹ <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/160307homicidereviewreportcy.pdf>

dysgu yn sgil yr adolygiadau hyn, yn arbennig os nad oeddent wedi bod yn rhan uniongyrchol o ymchwiliad a gynhaliwyd gan AGIC.

Adolygiad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyhoeddi adolygiad² o'r trefniadau llywodraethu clinigol sydd ar waith gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a sut oedd y rhain yn gysylltiedig â chanlyniadau ar gyfer cleifion. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, gwnaethom ganolbwyntio ar wasanaethau'r galon. Mae canfyddiadau allweddol ein hadolygiad fel a ganlyn:

- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn mynd trwy gyfnod o drawsnewidiad, gan weithio tuag at roi rhagor o bwyslais ar ansawdd wrth gomisiynu gwasanaethau. Canfuom na fu'r ffocws hwn ar ansawdd yn bresennol bob amser yn y ffordd roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau.
- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar, sy'n rhoi adolygiad o ganlyniadau ac effaith ei waith i leihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau'r galon. Roedd yr adolygiad hwn yn nodi diffygion yng ngweithdrefnau'r pwyllgor ar gyfer llywodraethu'r prosiect hwn – er enghraifft, ni roddwyd sicrwydd inni fod y broses ar gyfer dewis darparwyr yn Lloegr yn cael ei dogfennu'n ddigon cadarn.
- Gwelsom wendidau yn y ffordd roedd Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cael ei weithredu. Er enghraifft, nid oedd gwybodaeth ynghylch pryderon cychwynnol ynglŷn ag amseroedd aros cardioleg wedi cael ei hadrodd i'r pwyllgor mewn modd amserol.
- Mae ein hadolygiad yn codi'r cwestiwn a all Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fod yn gorff ar gyfer gwneud penderfyniadau sydd wir yn annibynnol pan fydd yn cynnwys darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau arbenigol yng Nghymru.

² <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/151221clinicalgovernancereviewcy.pdf>

- Mae canfyddiad allanol bod rôl a chyfrifoldeb Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ynglŷn â rheoli gwasanaethau arbenigol yn aneglur.

Yn gyffredinol, mae ein hadolygiad wedi nodi bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ddechrau'r broses o gryfhau ei drefniadau llywodraethu clinigol.

Mae angen i bob bwrdd iechyd ddysgu o'r adolygiad hwn ac ystyried y camau gweithredu y mae angen iddynt eu cymryd.

5. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

Camau Dilynol

Yn dilyn pob un o'n harolygiadau, gwnaethom gyhoeddi adroddiad arolygu o'n canfyddiadau. Lle gwnaethom nodi bod angen gwella, gwnaethom hefyd fynnu bod y practis deintyddol neu bractis meddyg teulu'n cyflwyno cynllun gwella i ni a oedd yn amlinellu'r hyn y byddent yn ei wneud i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd gennym.

Darparwyd y cynlluniau gan bractisau deintyddol a phractisau cyffredinol o fewn yr amserlen benodedig yn gyffredinol. Cafodd pob ymateb ei werthuso'n unigol gan AGIC a rhoddwyd digon o sicrwydd inni fod y gwelliannau naill ai wedi'u cyflawni neu'n cael sylw.

Gwnaethom ysgrifennu at y bwrdd iechyd yn 2015 yn holi am y cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran y gwelliannau a nodwyd yn ein harolygiadau yn ystod 2014-15. Rhoddwyd sicrwydd inni fod y bwrdd iechyd wedi cymryd y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r gwelliannau a nodwyd gennym a/neu wedi cyflwyno tystiolaeth i ddangos bod digon o gynnydd yn digwydd yng nghyswllt y rhan fwyaf o'r materion hyn.

Roedd hefyd yn amlwg o'r gweithgarwch dilynol hwn bod y bwrdd iechyd yn defnyddio ein harolygiadau i wella ansawdd a diogelwch ei wasanaethau drwy sicrhau camau gweithredu yng nghyswllt yr argymhellion a wnaed gan AGIC, a thrwy sicrhau nad yw'r problemau a nodwyd yn codi eto yn rhannau eraill o'r bwrdd iechyd.

Sicrwydd ar Unwaith

Lle y gwnaethom nodi perygl i ddiogelwch cleifion a oedd angen camau gwella ar unwaith, gwnaethom gyflwyno llythyrau i'r practisau yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyflwyno pedwar llythyr sicrwydd ar unwaith yng nghyswllt arolygiadau o bractisau deintyddol. Gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith bod camau gweithredu wedi eu cymryd i fynd i'r afael â'r canlynol:

- tystiolaeth annigonol i ddangos bod cyfarpar pelydr-X yn cael ei gynnal yn gywir a bod staff wedi derbyn y lefel hyfforddiant sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 i weithredu'r cyfarpar pelydr-X
- nid oedd dogfennau a fyddai'n cadarnhau bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael ei hysbysu bod cyfarpar radiograffig yn cael ei ddefnyddio ar y safle
- trefniadau aneffeithiol ar gyfer rheoli staff ac mewn achos o ymdrin â chwyn
- nid oedd tystysgrifau proffesiynol a thystiolaeth o yswiriant indemniad, o ganlyniad i'r ffaith nad oedd trefn ar ffeiliau cyflogaeth y staff.

Gwnaeth AGIC dderbyn a gwerthuso ymatebion i'r llythyrau sicrwydd ar unwaith, a chafodd sicrwydd bod camau gweithredu addas yn cael eu cymryd i roi sylw i'r gwelliannau angenrheidiol.

6. Llywodraethu ac Atebolrwydd

Nodir y trefniadau llywodraethu ar gyfer GIG Cymru yn *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru*.³ Bwrdd Iechyd Addysgu Powys sy'n gyfrifol am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y mae'n eu darparu a'u comisiynu.

Nod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yw darparu gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd da i'r bobl a wasanaethir ganddynt, a chyflawnir rhywfaint o hyn drwy

³ Mae *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru* yn disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldebau a'r hyn sydd angen ei roi ar waith i geisio a darparu sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Safe%20Care%2C%20Compassionate%20Care%20-%20Welsh%20Final%20version%20for%20publication%20-%20January%202013.pdf>

gomisiynu gwasanaethau ysbyty arbenigol ar gyfer preswylwyr Powys o'r tu allan i'r sir. Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn ceisio cynyddu'r gwasanaethau a ddarperir o fewn y sir lle bo modd. Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i gael pwrpas deuol o ran darparu gwasanaethau gofal iechyd i'w boblogaeth yn uniongyrchol, a rheoli'r gwasanaeth maent yn ei gomisiynu ac yn talu amdano o siroedd eraill.

Fel y nodwyd uchod, yn ystod 2015-16 ni wnaeth AGIC ymweld ag unrhyw wasanaethau ysbyty o fewn y bwrdd iechyd, o ganlyniad i'r lefel uchel o waith arolygu yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Fodd bynnag, gwnaeth AGIC barhau i ddilyn datblygiadau o fewn ysbytai Powys drwy fod yn bresennol mewn cyfarfodydd bwrdd iechyd a thrwy drefniadau rhannu gwybodaeth parhaus gyda chyrrff eraill megis y cyngor iechyd cymuned a Swyddfa Archwilio Cymru.

Gwnaeth AGIC hefyd ofyn yn uniongyrchol am sicrwydd gan y bwrdd iechyd eu bod yn mynd i barhau i ymgorffori newidiadau ac argymhellion o'n harolygiadau yn 2014-15. Bydd gwaith arolygu a chyswllt yn y dyfodol â'r bwrdd iechyd yn ystyried i ba raddau y mae'r newidiadau hyn wedi eu hymgorffori, a ph'un a yw trefniadau'r bwrdd iechyd wedi sicrhau y gellir rhannu gwersi a ddysgwyd fel rhan o'u gwaith parhaus i wella ansawdd.

Efallai y bydd y bwrdd iechyd am ystyried i ba raddau y mae'n parhau i ddefnyddio arolygiadau AGIC fel catalydd ar gyfer gwelliant parhaus ac aeddfedrwydd parhaus y sefydliad.

7. Ymgysylltu

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd AGIC ein hadroddiad blynyddol o'r bwrdd iechyd iddo ar 6 Gorffennaf 2015.

Gwnaeth Kate Chamberlain, Prif Swyddog Gweithredol AGIC, a Robin Bradfield, Rheolwr Perthynas ar gyfer Powys yn 2015-16, ymweld â ward rithwir Powys ar 29 Ionawr 2016. Gwnaeth AGIC hefyd fynychu dau o gyfarfodydd pwyllgor ansawdd a diogelwch Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

O ganlyniad i'n presenoldeb yn y cyfarfod pwyllgor ansawdd a diogelwch ar 10 Rhagfyr 2015, gwnaeth AGIC ohebu â'r bwrdd iechyd ynglŷn â'r materion canlynol:

- Ysbyty Aberhonddu
- Niferoedd staff

- Ymddiriedolaeth Dyffryn Gwy ac Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty Orthopedig Robert Jones ac Agnes Hunt.

Lle rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi mwy o wybodaeth inni am fater, rydym bob amser wedi derbyn ymateb prydlon sy'n rhoi digon o wybodaeth inni allu deall sefyllfa'r bwrdd iechyd a'r camau gweithredu a gymerwyd ganddo.

O ran y materion sy'n codi mewn byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill y mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau ar gyfer preswylwyr Powys, mae AGIC hefyd wedi gohebu â'r cyngor iechyd cymuned.

Rhoddyd sicrwydd i AGIC fod y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y bwrdd iechyd yn dangos eu bod wedi cymryd camau priodol i liniaru risgiau a mynd i'r afael â phroblemau.

8. Gwaith Arolygu

Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Ymarfer Cyffredinol

1. Canolfan Feddygol y Gelli Gandryll	10 Tachwedd 2015
2. Machynlleth	20 Ionawr 2016
3. Practis Meddygol Trefaldwyn, Well Street, Trefaldwyn, Powys, SY15 6PF	3 Chwefror 2016
4. Ystradgynlais Group Practice – Meddygfa Pengorof, Gorof Road, Ystradgynlais, SA9 1DS	17 Chwefror 2016

Practis Deintyddol

5. Sba Deintyddol Severnside, Y Drenewydd	15 Ebrill 2015
6. Practis Deintyddol y Trallwng (IDH)	22 Ebrill 2015
7. Clinig Deintyddol IDH Llandrindod	29 Ebrill 2015
8. Practis Deintyddol Crucywel yn y Ganolfan Iechyd Coffa Rhyfel, Beaufort Street, Crucywel	12 Mai 2015
9. A & P Powell-Main	2 Mehefin 2015
10. Practis Deintyddol Clifton	3 Mehefin 2015
11. IDH, Wylcwm Place, Powys	17 Mehefin 2015
12. Canolfan Ddeintyddol y Gelli Gandryll, Oxford Road, Henffordd	18 Mehefin 2015
13. Practis Deintyddol Teuluol IDH Llandrindod	29 Medi 2015
14. Practis Deintyddol Llanidloes, Mount Lane, Llanidloes, Powys, SY18 6EZ	15 Mawrth 2016

Arolygiad Dilynol o Bractis Deintyddol

15. Cwmni Deintyddol IDH, Crucywel	13 Awst 2015
--	--------------

Gofal Iechyd Annibynnol

Clinig Terfynu Beichiogrwydd

1. Gwasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain y Trallwng	24 Tachwedd 2015
--	------------------